# Y rhaglen waith ddiweddaraf ar berfformiad i'r Pwyllgor Archwilio 10 Ebrill 2014

## Cyngor Sir Ynys Môn

| Llythyr Asesu Gwelliant 1 – Cynllunio gwelliant |
| --- |
| Mae'r adolygiad wedi cael ei gwblhau ac mae Llythyr wedi'i gyhoeddi. |
| **Llythyr Asesu Gwelliant 2 – Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesu Perfformiad y Cyngor** |
| Mae'r adolygiad wedi cael ei gwblhau ac mae Llythyr wedi'i gyhoeddi. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** |
| Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) yn crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r gwaith a wnaed gan reoleiddwyr perthnasol, fel Estyn, AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r AGB drafft wrthi'n cael ei lunio ac fe'i cyflwynir yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio. |
| **Asesiad Corfforaethol** |
| Bydd ail flwyddyn y cylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol yn dechrau yn 2014. Bwriedir cynnal chwe asesiad corfforaethol yn 2014-15 ac mae Ynys Môn yn un ohonynt. Cynigir cynnal yr asesiad corfforaethol yn ystod Gaeaf 2014-15. |
| **Astudiaeth wella - Diogelu** |
| Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar asesu cadernid trefniadau rheolaeth fewnol cynghorau er mwyn rhoi sicrwydd i'w hunain fod trefniadau diogelu yn gweithio'n effeithiol. Cynhelir yr astudiaeth yn y 22 o awdurdodau. Prif allbynnau'r astudiaeth fydd adroddiad cenedlaethol ar ganfyddiadau gwaith lleol ac adroddiad cryno ar gyfer pob cyngor sy'n cynnwys prif ganfyddiadau'r gwaith maes. Cynhelir yr astudiaeth rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2014. |
| **Astudiaeth Genedlaethol Llywodraeth Leol - Diwygio lles** |
| Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar baratoi i ddelio ag effaith Deddf Diwygio Lles 2012 a bydd yn ystyried pa mor dda y mae llywodraeth leol wedi cynllunio ar gyfer cyflwyno diwygiadau lles drwy olrhain y goblygiadau i dai cymdeithasol. Mae'r gwaith maes wedi dechrau ac mae PwC wedi anfon arolygon landlordiaid a chynghorau manwl at y prif ddarparwyr cymdeithasau tai a phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, sef cyfanswm o 62 o arolygon unigol. Mae'r gwaith maes wedi'i gwblhau ac yn symud i'r cam llunio adroddiad. Ni chynhwysir Ynys Môn fel safle gwaith maes. |

**Astudiaeth Genedlaethol Llywodraeth Leol – Cyflawni â llai – yr effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion**

Mae'r gwaith maes wedi'i gwblhau. Cyhoeddir adroddiad ac mae'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wedi cytuno i lansio casgliadau'r adroddiad yn eu cynhadledd i Gymru ar 7 ac 8 Mai, 2014.

**Effeithiolrwydd craffu**

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Disgwylir i adroddiad cenedlaethol gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2014.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau ac mae crynodebau lleol terfynol wedi cael eu dosbarthu i gynghorau. Disgwylir i adroddiad cenedlaethol gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2014.

**Astudiaeth Llywodraeth Leol – Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS)**

Astudiaeth ar gyfer 2012-13 yw hon. Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau a disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2014.

**Astudiaeth Llywodraeth Leol – Rheoli'r her ariannol**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 28 Ionawr 2014.

**Astudiaethau Llywodraeth Leol 2014-15**

**1.** Anfonwyd y rhestr fer o opsiynau ar gyfer astudiaethau ar gyfer 2014-15 i'r cynghorau er mwyn ymgynghori arni.
Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r chwe phwnc canlynol:

- Opsiwn 1: Blwyddyn 2 Cyflawni â llai - gan ganolbwyntio naill ai ar Wasanaethau hamdden; Rheoleiddio/Gorfodi/Cynllunio; neu Wastraff.
- Opsiwn 2: Gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig i ymdrin â'r galw ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Opsiwn 3: Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.
- Opsiwn 4: Seilwaith Priffyrdd.
- Opsiwn 5: Datblygu Economaidd a Chreu Swyddi.
- Opsiwn 6: Rheoli Gwastraff - atal ac ailgylchu.

Rydym wedi cael ymatebion gan Gynghorau, AGGCC, Estyn, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a SOLACE. Mae rhaglen ddrafft ar gyfer 2014-15 wrthi'n cael ei hystyried a chaiff ei chadarnhau maes o law.

## Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn

| Adolygiad lleol |
| --- |
| Mae ffocws y gwaith lleol wedi newid a bydd bellach yn adolygu elfennau o'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, er mwyn paratoi ar gyfer yr adolygiad cynhwysfawr ym mis Chwefror 2015. Bwriedir cynnal y gwaith ym mis Ebrill 2014 ac adroddir arno drwy adborth lleol ac yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB). |